BT

Cawsom gwmni drama o Huddersfield yn perfformio ar ran BT drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y plant wrth eu bodd. Cafodd Blynyddoedd 5 a 6 weithdai i ddilyn.

Celf

Treuliodd blwyddyn 5 brynhawn difyr yng Nghanolfan y Celfyddydau yn llunio baner liwgar. Dewch i'w gweld yn nosbarth Mr John.

Trawsgwlad

Cafwyd canlyniadau arbennig eleni eto yn y cylch a'r sir. Enillodd blwyddyn 5 y tlws am y tîm gorau dros Ddyfed gyfan.

Nofio

Perfformiadau gwych gan bawb – llongyfarchiadau.

Hoci

Yn nhwrnament hoci adran B, cyrhaeddodd merched Bro Dafydd y gêm derfynol a cholli o drwch blewyn yn erbyn Trefeurig. Da iawn chi. Diolch i'r rhieni a Mrs Mitchell am eu hyfforddi.

Gymnasteg

Bu Lydia a Kayleigh Shaw yn cystadlu fel pâr yng nghystadleuaeth gymnasteg Eisteddfod Sir yr Urdd. Llongyfarchiadau iddynt am ddod yn 4ydd.